




PASBORT

AT

Feddygaeth

Beth sydd rhaid i mi ei wneud i
fod yn fyfyrwr meddygaeth?



A wyddoch chi?

Mae'n rhaid i chi astudio meddygaeth mewn ysgol meddygaeth er mwyn bod yn feddyg.

A wyddoch chi?

Mae'n bosibl y byddwch chi a'ch ffrindiau mewn ysgolion meddygaeth eraill yn graddio gyda llythrennau gwahanol ar ôl eich enw (er enghraifft MBBCh, MBBS, MBChB ac ati) ond byddwch chi'n dal i wneud yr un gwaith pan fyddwch chi'n feddygon.

A wyddoch chi?

Fel arfer, mae ysgol meddygaeth yn rhan o brifysgol, ond does dim ysgol meddygaeth gan bob prifysgol.

A wyddoch chi?

Mae rhai myfyrwyr o'r DU yn ennill gradd meddygaeth dramor. Os ydych chi'n ystyried hyn, cofiwch fod yn rhaid i'ch cymhwyster chi gael ei dderbyn gan y GIG.





blwyddyn 9

Gwaith Cartref

Mae meddyg yn ymfalchïo yn ei ymdrechion i ddatblygu arferion gwaith da, e.e. cyflwyno gwaith ar amser, i'r safon gorau posibl.

Cofiwch am eich TGAU

Cofiwch y bydd y rhan fwyaf o ysgolion meddygaeth am i chi gael graddau da mewn Saesneg, Mathemateg (rhifedd) a naill ai Gwyddoniaeth Dwyradd neu raddau Cemeg a Bioleg sengl.

Beth yw eich hobiau a'ch diddordebau chi?

Nid dim ond gwaith sy'n mynd â bryd myfyrwyr meddygaeth. Bydd y blynyddoedd nesaf yn heriol ar adegau, felly mae'n bwysig i chi ddod o hyd i bethau rydych chi'n eu mwynhau, nad ydynt yn bethau academiaidd.

Bydd y rhain yn eich helpu chi i ymlacio ac yn eich gwneud chi'n fwy gwydn. Gwydnwch yw'r gallu i oresgyn pethau pan fyddan nhw'n mynd o'i le.

blwyddyn 10

Meddyliwch

Mae meddyg da yn myfyrio ar y pethau y mae'n ei wneud, er mwyn osgoi ailadrodd camgymeriadau a allai beryglu ei gleifion. Rhowch gynnig ar fyfyrion gyda'ch teulu a'ch ffrindiau: dewiswch un peth rydych chi wedi'i wneud neu ei weld bob dydd, a'i drafod yn fanwl. Beth ddigwyddodd? Pam digwyddodd hynny? Beth ddylai fod wedi digwydd? Allai fod wedi digwydd mewn rhyw ffordd arall? Beth fydddech chi wedi'i wneud pe baech chi wedi bod yn rhan o'r sefyllfa?

Chwiliwch am gyfleoedd

Dechreuwch ofyn i bobl beth maen nhw'n ei wybod am yrfa yn y byd meddygaeth, ond cofiwch efallai na fydd y wybodaeth gywir gan rai pobl sy'n ceisio eich helpu.



blwyddyn 11

Dewiswch eich pynciau Safon Uwch yn ofalus.

Bydd ar bob ysgol meddygaeth eisiau o leiaf tair cymhwyster Safon Uwch, ond nid yw pob ysgol yn gofyn am yr un pynciau. Mae rhai yn gofyn am Safon Uwch Cemeg a Bioleg, ond bydd rhai yn derbyn naill ai Cemeg neu Fioleg, ar yr amod bod gennych chi gymhwyster Safon Uwch mewn gwyddor arall, a thrydydd pwnc.

Bydd rhai ysgolion meddygaeth yn aml yn derbyn trydydd cymhwyster Safon Uwch mewn unrhyw bwnc, ond bydd gan ysgolion eraill bynciau penodol sy'n well ganddyn nhw. Bydd llawer o ysgolion meddygaeth yn gwrthod derbyn pynciau fel Meddwl yn Feirniadol ac Astudiaethau Cyffredinol. Mae'n bosibl na fydd rhai yn derbyn ambell

gyfuniad o bynciau.

Ar y cyfan, mae Mathemateg a gwyddor arall yn cael eu derbyn, ond gall Drama, Hanes, Saesneg, y Gyfraith, Cymraeg, Ffrangeg, Ystadegau, Economeg, Celf, Bagloriaeth Cymru a phynciau eraill eich helpu chi i fod yn feddyg cyflawn sy'n gallu cyfathrebu'n dda.

Edrychwch ar wefan UCAS cyn i chi wneud eich dewisiadau Safon Uwch terfynol. Bydd gwefan [Cyngor yr Ysgolion Meddygol](#) hefyd yn dweud wrthyhch pa bynciau y mae pob ysgol feddygol yn gofyn amdanynt.



Oes modd i chi gael profiad gwaith?

Os ydych chi'n rhy ifanc i gael lle mewn cartref gofal neu ysbyty, neu os yw lleoedd yn brin o hyd oherwydd COVID-19, gallech chi ystyried gwirfoddoli – efallai y gallech chi gynnig helpu unigolyn hŷn drwy dorri'r gwair neu fynd â'r ci am dro (mewn modd diogel). Gwnewch hyn yn gyson, nid dim ond yn achlysurol, a defnyddiwch yr amser i fyfrio ar sut fywyd y mae'r unigolyn hŷn hyn yn ei gael.

Ystyriwch a ydych chi'n

mwynhau ei helpu ai peidio. Mae gan feddygon empathi tuag at bobl eraill (y gallu i 'gerdded yn esgidiau rhywun arall'), ac maen nhw'n ddyngarol (sy'n golygu eu bod nhw'n helpu pobl mewn angen, heb fod arnyn nhw eisiau dim byd yn ôl). Ydy hyn yn eich disgrifio chi?

Meddylwch am sgiliau a phrofiadau newydd, a sut gallai'r rhain eich gwneud chi'n feddyg gwell.

Mae awgrymiadau yn ein llyfryn adnoddau ar-lein hefyd.



blwyddyn 12

Profiad gwaith

Ymgeisiwch ar ddechrau Blwyddyn 12. Ffoniwch yr ysbyty leol i ofyn am wybodaeth, a gwnewch gais YN GYNNAR. Nid yw profiad gwaith bob amser yn bosibl wyneb yn wyneb, ond mae rhai cyfleoedd gwych am brofiad gwaith rhithwir ar-lein.

Meddyliwch am y ffordd rydych chi'n dysgu orau. Ydych chi'n hoff o fod yn ymarferol ac yn annibynnol wrth ddysgu, neu ydych chi'n hoff o ddysgu drwy theori?

Nid yw pob cwrs a phob ysgol meddygaeth yr un fath.

Ydych chi am wneud blwyddyn ymsang, gan astudio am flwyddyn yn rhagor, i raddio gyda dwy radd yn lle un?

Ydych chi am astudio'n bell oddi cartref? Ydych chi am fod mewn ysgol meddygaeth sy'n rhoi'r un gwerth ar wyddoniaeth a phobl? Neu un sy'n mynd i ganolbwyntio mwy ar ddatblygu eich sgiliau ymchwil chi?



Cofiwch

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ar gael yn rhad ac am ddim: ewch i ddiwrnodau agored ac i ddiwrnodau blasu meddygaeth, edrychwch ar wefan Cyngor yr Ysgolion Meddygaeth (www.medschools.ac.uk), darllenwch wefannau prifysgolion yn ofalus a siaradwch â myfyrwyr meddygaeth presennol. Cyn mynd i ddiwrnodau agored, meddyliwch am y math o gwestiynau yr hoffech eu gofyn i fyfyrwyr meddygaeth, fel i ble byddwch chi'n mynd ar leoliad, pryd byddwch chi'n dechrau gweld cleifion ac ati.

Mae gwefan The Student Room yn lle defnyddiol i ofyn cwestiynau i fyfyrwyr os na allwch chi fynd i bob diwrnod agored.



Gwnewch daenlen o ysgolion meddygaeth

Rhestrwch beth y mae ar bob un ei angen gan ei myfyrwyr, beth rydych chi'n ei hoffi amdany'n nhw, beth sy'n eich poeni chi (os oes unrhyw beth yn eich poeni chi o gwbl) a chanolbwyntiwrch ar y rhai sydd o fewn eich cyrraedd chi.

Pa raddau TGAU/sgôr UCAT sy'n ofynnol gan y rhai sydd o ddiddordeb i chi*?

A oes angen BMAT*?


A ydych chi'n dilyn y pynciau Safon Uwch cywir? Mae cymwysterau amgen* arall gallwch eu hastudio ar ôl y 6ed dosbarth ond bydd yn cymryd hirach i ddod yn feddyg. A ddylech chwilio am ysgolion meddygol sy'n cynnig cwrs sylfaen? Pa gymwysterau bydd eich dewisiadau'n derbyn?

Pa mor bwysig yw eich datganiad personol neu eich graddau darogan?

Cofiwch fod yn rhaid i chi fodloni gofynion sylfaenol ysgol meddygaeth, neu bydd eich cais yn cael ei wrthod yn awtomatig; mae gan ysgolion meddygaeth feini prawf sylfaenol gwahanol o ran graddau TGAU a materion eraill. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion meddygaeth yn gofyn i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ar eich diwrnod cyntaf.

Cofiwch nodi'r cod UCAS ar gyfer pob cwrs (e.e. A100, A101.)*

*Ewch i tt21-23 i weld yr allwedd



Archwilio

Trefnwch wirfoddoli

Canolbwyntiwch ar wirfoddoli sy'n cynnwys elfen o ofal, e.e.

- cartref gofal grwpiau neu glybiau cefnogi ar gyfer plant sydd ag anableddau corfforol neu feddyliol
- cynlluniau chwarae
- grwpiau cefnogi a sesiynau gweithgareddau i oedolion e.e. pobl sydd â dementia neu MS
- sesiynau hyfforddi chwaraeon i blant
- tiwtora myfyrwyr TGAU
- mentora pobl ifanc eraill.

Ceisiwch wneud hyn dros gyfnod sylweddol o amser. Gallai lleoliadau cartref gofal gymryd 3-4 mis i'w trefnu.

Dylech chi gynnal eich diddordebau allgyrsiol e.e. cerddoriaeth, chwaraeon, drama ac ati. Bydd hyn yn dangos eich bod chi'n unigolyn "cyflawn" ac nad ydych chi'n canolbwyntio ar eich astudiaethau academiaidd yn unig.

Ceisiwch gymryd sylw o'r newyddion diweddaraf, a datblygiadau ym maes gwyddoniaeth a meddygaeth. Darllenwch bapur ar y we (nid dim ond ffrwd newyddion Facebook). Darllenwch wefannau gwyddonol, a gwefannau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'r Academi Colegau Meddygol Brenhinol.*

A oes clwb meddygaeth yn eich ysgol chi? Allech chi ddechrau un? Pa gyfleoedd i ddysgu rhagor am feddygaeth a gwyddoniaeth sydd ar gael drwy Seren neu ddarlithoedd cyhoeddus?

*Ewch i tt21-23 i weld yr allwedd





Sicrhewch eich bod yn sefyll eich prawf cyn ymgeisio i ysgol feddygaeth



Weithiau, mae ysgolion meddygaeth yn defnyddio profion dethol fel UCAT, BMAT a GAMSAT i'w helpu i benderfynu pwy i'w cyf weld.* Nid yw sgôr uchel yn ofynnol gan bob un ohonyn nhw, ond efallai y byddan nhw'n dymuno i chi sefyll y prawf o hyd.

Mae pob ysgol meddygaeth bob amser yn adolygu sut maent yn defnyddio profion fel UCAT, GAMSAT, ac ati.* I gael gwybod am newidiadau, dylech edrych ar y wybodaeth sydd ar wefannau'r prifysgolion ar hyn o bryd.

Gallwch chi drefnu prawf UCAT o 1 Mai. Efallai y byddai'n syniad da i chi drefnu dyddiad pan ydych yn llai prysur a neilltuo mis i chi baratoi? Mae adnoddau ymarfer ar gael ar wefan UCAT.

Os ydych chi'n ystyried gwneud cais am ysgol meddygaeth sy'n defnyddio BMAT, cofrestrwch ar gyfer BMAT gyda'ch swyddfa prawf/canolfan ranbarthol dros haf Blwyddyn 12.

Mae'r prawf BMAT yn cael ei gynnal ddechrau mis Tachwedd: mae'n bosibl gwneud prawf cynnar ym mis Medi, ond efallai na fydd hynny'n rhoi digon o amser i chi baratoi.*

*Ewch i tt21-23 i weld yr allwedd

Ar ôl i chi sefyll y prawf dethol, defnyddiwyd eich taenlen i benderfynu pa brifysgolion i wneud cais ar eu cyfer. Mae UCAS yn caniatáu i chi ymgeisio ar gyfer hyd at bump cwrs, a gall pedwar o'r rhain fod yn gyrsiau meddygaeth.

Cynllun B

Dechreuwyd ddatblygu Cynllun B: beth os na chewch chi gynnig y flwyddyn nesaf? A fydddech chi'n fodlon derbyn lle ar gwrs gradd arall, a gwneud cais arall i astudio meddygaeth ar ôl i chi raddio? Yn hytrach na gadael eich 5^{ed} dewis UCAS yn wag, dylech chi ystyried gwneud cais ar gyfer cwrs ffrwd fwydo. Ydych chi'n fodlon cymryd blwyddyn i ffrwrdd a gwneud cais arall pan fyddwch chi'n gwybod beth fydd eich canlyniadau Safon Uwch? Ydych chi am gael blwyddyn i ffrwrdd beth bynnag? Beth gallech chi ei wneud yn ystod yr amser hwnnw a fydd yn eich helpu chi i feithrin sgiliau y gallwch chi eu trosglwyddo, a fydd yn eich gwneud chi'n well myfyriwr meddygaeth?



Datganiad Personol

Dechreuwch ysgrifennu eich datganiad personol. Cofiwch edrych ar eich taenlen wrth i chi ysgrifennu eich datganiad personol, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n trafod y nodweddion neu'r profiadau y mae eich ysgolion meddygaeth o ddewis am eu gweld yn eu myfyrwyr.

Dywedwch beth rydych chi wedi'i ddysgu o'ch profiadau. Os ydych chi wedi cael cyfle i gysgodi llawfeddyg yr ymennydd neu ddringo mynydd Kilimanjaro, gwyh! Ond nid yw'r ffaith eich bod chi wedi cael eich rhoi yn y sefyllfaoedd hynny yn dweud wrth ysgol meddygaeth a ydych chi'n mynd i fod yn feddyg meddylgar a pharchus ai peidio.



blwyddyn 13

amser penderfynu...

Dyddiad CAU

UCAS

ARGYFER CEISIADAU YW

Hydref

se



Hydref




blwyddyn 13

Daliwch ati i wirfoddoli

Bydd yn rhoi profiadau diddorol a defnyddiol i chi eu trafod yn y cyfweiliad, ac os byddwch chi'n gwneud cais arall yn ystod blwyddyn i ffwrdd, bydd yn dangos eich bod chi o ddifrif ynglŷn â dilyn gyrfa ym myd meddygaeth.

Mae rhai ysgolion meddygaeth yn hapus i'w hymgeiswyr gymryd blwyddyn i ffwrdd, oherwydd byddwch chi'n gwneud cais ar ôl cael blwyddyn yn ychwanegol o aeddfedrwydd a phrofiad bywyd. Ond cofiwch ofyn am hyn pan fyddwch chi'n gwneud cais. Ni fydd yn gwneud argraff dda ar ysgol meddygaeth os byddwch chi'n penderfynu ar hyn yn ddirybudd ar ôl iddyn nhw wneud cynnig i chi.



A wyddoch chi?

Ni fydd ysgolion meddygaeth yn sôn wrth ddarpar fyfyrwyr am bopeth a fydd yn digwydd yn y cyfweiliad. Fyddan nhw ddim yn rhoi gwybod i gwmnïau preifat chwaith: efallai bod y sefydliadau hyn yn gwybod beth ddigwyddodd y llynedd, ond nid yw hynny'n golygu y bydd yr ysgol meddygaeth yn gwneud yr un peth eleni.



A wyddoch chi?

Nid yw cyfweiliadau panel yr un fath â Chyfres o Gyfweiliadau Byr (MMIs), felly dylech chi ymarfer y dechneg cyfweild y bydd arnoch chi ei hangen ar gyfer yr ysgolion meddygaeth o'ch dewis.

Gofyn am gyngor

Gofynnwch i'ch ysgol am gyngor, ac ymchwiliwch ar y we. Ond, cofiwch na fydd yr holl gyngor ar y we yn ddiweddar nac yn gywir.

Ychwanegwch at eich taenlen

Daliwch ati i ychwanegu gwybodaeth at eich taenlen. Gwnewch nodiadau am eich profiadau o wneud cais neu gael eich cyfweild.

Ceisiadau

Mae mwy o ymgeiswyr da na sydd o lefydd mewn ysgolion meddygaeth. Bob blwyddyn, mae rhai myfyrwyr yn gadael yn waglaw, heb ddim cynigion o gwbl.

Bydd y rheini sy'n wydn, fel y mae'n rhaid i feddygon fod, yn penderfynu defnyddio Blwyddyn 13 fel profiad i ddysgu ohono, ac yn myfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd.

Dylai ail gais yn ystod blwyddyn i ffwrdd, sydd wedi'i gynllunio'n dda a'i gefnogi gan ganlyniadau Safon Uwch da, fod yn gais llawer cryfach na'r cais UCAS gwreiddiol, a bydd yn gwella eich siawns o gael cynnig.

Sut allaf
wella fy
nghais?



Dyddiad

Amser gwneud penderfyniad unwaith eto

Bydd gan UCAS* ddyddiad cau pryd bydd yn rhaid i chi

1. gadarnhau eich hoff gynneg h.y. eich dewis cyntaf

2. dewis cynneg arall, os oes un gennych chi, yn gynneg wrth gefn, h.y. derbyn y cynneg hwnnw os na chewch chi'r graddau ar gyfer eich dewis cyntaf

3. gwrthod unrhyw gynneg arall a wnaed.

Dim cynigion eleni?

Mae'n bryd troi at Gynllun B.

»Cofiwch«

Mae sawl llwybr gwahanol y gallwch chi ei ddilyn i astudio meddygaeth, os ydych chi'n berson gwydn a phenderfynol.

Eisiau gwybod mwy? Darllenwch ein taflen Llwybrau at Feddygaeth



*Ewch i tt21-23 i weld yr allwedd

Allwedd



A100, A101 ac ati.

Mae gan bob gradd gôd UCAS (gweler isod). Mae'n bosibl y bydd gan ddau gwrs gradd godau gwahanol ond eu bod nhw'n debyg iawn. Mae'n bosibl y bydd cyrsiau gradd eraill yn rhannu cod unfath, ond na fydd llawer yn gyffredin rhyngddyn nhw ar wahân i hynny. Peidiwch byth â chymryd yn ganiataol nad oes arnoch chi angen unrhyw wybodaeth ar wahân i'r côd UCAS cyn gwneud cais.

Mae gan eich gradd deitl y cwrs ac efallai enw hefyd. Er enghraifft, gelwir cwrs MBCh Meddygaeth Prifysgol Caerdydd yn 'C21', felly gelwir ein myfyrwyr meddygaeth yn 'fyfyrwyr C21'.



BMAT

Prawf dethol y mae ar rai ysgolion meddygaeth eisiau i fyfyrwyr ei sefyll cyn gwneud cais i astudio meddygaeth.



Cwrs ffrwd fwydo

Graddau yw'r rhain sy'n 'bwydo' i mewn i gwrs meddygaeth os byddwch chi'n graddio gyda graddau da ac yn pasio'r cyfweiliad. Mae Prifysgol Caerdydd, er enghraifft, yn croesawu ceisiadau ar gyfer cwrs gradd Meddygaeth A101, o bedwar cwrs ffrwd fwydo, gan gynnwys ei gwrs gradd Ffarmacoleg Feddygol ei hun (BSc B210). Mae'n werth ystyried cyrsiau ffrwd fwydo os na chewch chi gynnig ym Mlwyddyn 13, neu os ydych chi wrth eich bodd â gwyddoniaeth ond ddim eto'n sicr ai meddygaeth yw'r llwybr cywir ar eich cyfer chi. Nid yw pob ysgol meddygaeth yn cynnig ffrwd fwydo.

⇒ Allwedd ⇒



Cymwysterau amgen

Gall myfyrwyr na astudiodd y pynciau Safon Uwch 'cywir' astudio blwyddyn ychwanegol cyn dechrau ym meddygaeth, gan ddysgu'r gwyddoniaeth a gollwyd ar lefel Safon Uwch.

Os yw hyn yn swnio fel chi, mae'n bwysig cysylltu â phob un o'ch dewisiadau ysgol meddygaeth am gyngor.



CMC

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (General Medical Council). Y CMC sy'n gosod safonau eich addysg a'ch gyrfa ym maes meddygaeth.



GAMSAT

Prawf dethol y mae ar rai ysgolion meddygaeth eisiau i bobl sydd eisoes â gradd, neu sydd yn eu blwyddyn olaf yn y brifysgol, ei sefyll cyn gwneud cais i astudio meddygaeth.



Isafswm gofynion

Dyma'r graddau, y sgiliau neu'r profiadau y mae ysgolion meddygaeth am eu gweld yn eu hymgeiswyr. Bydd gan bob ysgol meddygaeth ofynion sylfaenol gwahanol. Bydd gwirio'r rhain cyn i chi wneud cais yn cynyddu eich siawns o gael cynnig gan ysgol meddygaeth.

≡ Allwedd ≡



MMIs

Cyfres o Gyfweliadau Byr. Math o gyfweliad sy'n rhoi cyfle i chi siarad un-i-un gyda sawl cyfwelydd gwahanol yw hwn, er mwyn i'r ysgol meddygaeth ffurfio barn deg a chytbwys am eich cryfderau.



Cyfweliadau panel

Math traddodiadol o gyfweliad, lle bydd ymgeisydd yn cael ei gyfwrdd gan banel o ddau neu ragor o bobl.



UCAT


Prawf dethol y mae ar rai ysgolion meddygaeth eisiau i fyfyrwyr ei sefyll cyn gwneud cais i astudio meddygaeth. UKCAT oedd ei enw gynt.



UCAS

Y wefan y byddwch chi'n ei defnyddio i anfon cais at ysgol meddygaeth. Byddwch chi'n creu cyfrif UCAS ac yn ei ddefnyddio i dderbyn a gwrthod cynigion. Bydd ysgolion meddygaeth yn defnyddio UCAS i gysylltu â chi.

- Dewiswch eich pynciau Safon Uwch yn ofalus
- Trefnwch gyfleoedd gwirfoddoli
- Canolbwyntiwch ar wirfoddoli sy'n cynnwys elfen o ofal
- Rhowch drefn ar eich dewisiadau gyda thaenlen
- Gwnewch gynllun B
- Gwnewch bethau a fydd yn eich gwneud chi'n fwy gwydn
- Rhowch gynnig ar fyfyrion gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.



COFFINCH

Astudiwch Meddygaeth

(MBBCh, A100 neu A101)

YM
Mhrifysgol

CAERDYDD

Ar ôl i chi wneud cais, byddwn yn edrych
ar eich cais chi fesul cam. Mae sawl
ffordd o gael dod i astudio meddygaeth
gyda ni, felly os na fydd eich cais yn
llwyddiannus, gallech chi ystyried dilyn un
o'r llwybrau eraill sy'n cael eu hawgrymu
ar y dudalen nesaf.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ymgeisio ar gyfer meddygaeth?

Hyd at Hydref – amser gwneud cais

1.

Hydref ymlaen – asesu eich cais

2.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennych chi'r graddau sylfaenol rydyn ni'n gofyn amdany'n nhw, o leiaf, yn ogystal â sgôr prawf dethol.
- Byddwn yn edrych ar eich datganiad personol a'ch geirda chi.
- Yna, byddwn yn rhoi sgôr i raddau a datganiadau personol pawb, ac yn trefnu yr holl geisiadau gyda'r gorau yn gyntaf. Bydd ymgeiswyr a fyddai'n gweddu'n dda i'n cwrs ni yn cael eu rhoi ar frig y rhestr.

Diwedd Tachwedd – gwahoddiadau MMI

3.

- Ein nod yw cyfweled â chymaint o ymgeiswyr ag y gallwn. Os mai chi yw hwn, bydd dolen yn cael ei hanfon atoch chi i chi allu dewis amser cyfleus.
- Fel arall, os na chewch chi eich gwahodd i gyfweiliad, efallai y byddwn ni'n rhoi cynnig i chi ar gyfer cwrs arall. Mae croeso i chi wneud cais arall i astudio meddygaeth gyda ni ar ôl eich canlyniadau Safon Uwch, ond cofiwch orffen unrhyw gwrs gradd arall y byddwch chi'n ei ddechrau, oherwydd fydd y rhan fwyaf o ysgolion meddygaeth ddim yn derbyn myfyrwyr sy'n trosglwyddo o gwrs arall.

Rhagfyr ac Ionawr – cyfweiliad gyda ni

4.

- Bydd Cyfres o Gyfweiliadau Byr (MMIs) yn cael ei chynnal. Ar ôl i'r rhain ddod i ben, bydd sgôr pob cyfweiliad yn cael ei drefnu o'r uchaf i'r isaf.

5.

Diwedd Chwefror/Mawrth cynnar – cadwch lygad am gynnyg ar wefan UCAS

- Byddwn ni'n gwneud cynnig i gyfweleion llwyddiannus, ac yn eu gwahodd i ymuno â'n gweithgareddau gwybodaeth ar gyfer deiliad cynigion.
- Fel arall, os byddwch chi'n aflwyddiannus, byddwch chi'n cael adborth gennym ni am eich perfformiad yn y cyfweiliad, ac efallai y byddwch chi'n cael cynnig ar gyfer cwrs arall. Mae croeso i chi wneud cais arall, ond cofiwch orffen unrhyw gwrs gradd arall y byddwch chi'n ei ddechrau, oherwydd fydd y rhan fwyaf o ysgolion meddygaeth ddim yn derbyn myfyrwyr sy'n trosglwyddo o gwrs arall. Cofiwch y gallwch chi ein ffonio ni i gael cyngor ar ddiwrnod eich canlyniadau Safon Uwch os yw eich graddau'n rhai da iawn.

6.

Mawrth ac Ebrill – dewch i gael blas arni

- Os ydych wedi cael cynnig, ymunwch â ni am sesiynau (dewisol) i gael rhagor o wybodaeth am fod yn fyfyrwr meddygol yng Nghaerdydd.
- Os ydych chi wedi clywed gan eich holl ddewisiadau, dylech chi ystyried cadarnhau eich dewis cyntaf.

7.

Mehefin – a yw C21 yn iawn ar eich cyfer chi?

- Y dyddiad olaf i'r rheini sydd wedi cael cynnig allu cadarnhau mai ni yw eu dewis cyntaf, ein dewis ni fel dewis dros dro, neu wrthod ein cynnig ni.

8.

Awst – diwrnod canlyniadau Safon Uwch

- Os byddwch chi'n bodloni ein cynnig, llongyfarchiadau. Byddwn yn dechrau anfon manylion atoch chi ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.
- Fel arall, os cawsoch chi gynnyg gennym ni, ond ni chawsoch chi'r graddau gofynnol, mae'n bosibl y byddwn ni'n cynnig lle i chi ar gwrs gradd arall. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan raddedigion sydd â chymwysterau gradd a Safon Uwch da, ac yn gobeithio y byddwch chi'n ystyried gwneud cais arall ar ôl i chi raddio.

9.

Medi

- Croeso i'r ysgol meddygaeth, neu dechreuwch gwrs arall diddorol a allai eich arwain chi at yr ysgol meddygaeth yn y pen draw.
- Fel arall, os nad ydych chi'n dechrau yn y brifysgol eleni, gorffennwch eich ail gais UCAS, a pharatoi at flwyddyn anhygoel i ffwrdd, gan ehangu ar eich ystod o sgiliau trosglwyddadwy, a dyfnhau eidd gwybodaeth am feddygaeth a'r hyn y mae bod yn feddyg yn ei olygu.

A wyddoch chi?


Rydyn ni'n defnyddio UCAT, nid BMAT na GAMSAT.

A wyddoch chi?

Os byddwch chi'n gwneud cais i astudio gyda ni, ond ddim yn cael cyfweliad neu gynnig, rhowch gynnig arall arni y flwyddyn nesaf: mae rhai o'n myfyrwyr gorau yn dweud wrthym ni bod blwyddyn i ffwrdd wedi gwneud byd o wahaniaeth o ran cryfhau eu cais.

Eisiau gwybod mwy?

Darllenwch ein taflen Llwybrau at Feddygaeth.



Meddygaeth
YM
Mhrifysgol
Caerdydd
y cylch
ymgeisio
se



Ymgeisio drwy UCAS
Dyddiad cau
mis Hydref



Ystyried ail-ymgeisio?



Adborth ar berfformiad
eich cyfweiliad



Wedi cael cynnig lle?
Do/Naddo?



Cyfweiliad
Rhagfyr/Ionawr



Wedi bodloni'r meini
prawf academaidd/ nad
yw'n academaidd?
Do/Naddo?



Wedi cael eich
gwahodd i gyfweiliad?
Do/Naddo?



Paratoi at gyfweiliad

Astudïwch

Farmacoleg
Feddygol

(BSc, UCAS B210)

YM
Mhrifysgol

CAERDYDD

Y radd a sut gall arwain
at feddygaeth...

Farmacoleg yw'r astudiaeth o gyffuriau a'u heffaith ar systemau byw. Ydych chi erioed wedi ystyried sut mae cyffuriau fel poenladdwyr neu gwrthfotigau yn gweithio?

Bydd y cwrs gradd hwn yn rhoi atebion manwl i chi, a llawer mwy!

Beth fydd yn digwydd ar ol i mi ymgeisio ar gyfer Ffarmacoleg Feddygol?

Medi – Ionawr – amser gwneud cais

- Ymgeisiwch erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Ionawr (dyddiad cau UCAS).
- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennych chi'r graddau sylfaenol rydyn ni'n gofyn amdany'n nhw, o leiaf.
- Byddwn yn edrych ar eich datganiad personol a'ch geirda chi.
- Byddwn yn edrych ar eich canlyniadau blaenorol a'ch graddau darogan chi.

1.

Tachwedd – Chwefror – cadwch lygad am gynnig ar wefan UCAS

- Rydym yn cynnig llyfdd i gynifer o ymgeiswyr ag y gallwn.
- Os byddwch chi'n aflwyddiannus, byddwch chi'n cael adborth gennym ni, ac efallai y byddwch chi'n cael cynnig ar gyfer cwrs arall. Mae croeso hefyd i chi wneud cais arall i astudio Ffarmacoleg Feddygol yn ystod y cyfnod Clirio, neu'r flwyddyn nesaf. (Cofiwch y gallwch chi ein ffonio ni i gael cyngor ar ddiwrnod eich canlyniadau Safon Uwch.)

2.

Mehefin – a yw'r cwrs Ffarmacoleg Feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd yn iawn ar eich cyfer chi?

- Bydd y rheini sydd wedi cael cynnig yn gallu cadarnhau mai ni yw eu dewis cyntaf, ein dewis ni fel dewis dros dro, neu wrthod ein cynnig ni.
- Bydd cynnig ymgeiswyr sy'n ein dewis ni fel dewis cyntaf yn cael ei ostwng un gradd.

3.

Awst – diwrnod canlyniadau Safon Uwch

- Os byddwch chi'n bodloni ein cynnig, llongyfarchiadau. Byddwn yn dechrau anfon manylion atoch chi ynglŷn â'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.
- Fel arall, os cawsoch chi gynnig gennym ni, ond ni chawsoch chi'r graddau gofynnol, mae'n bosibl y byddwn ni'n eich derbyn chi o hyd, neu mae'n bosibl y byddwn ni'n cynnig lle i chi ar gwrs gradd arall. Fel arall, os na chawsoch chi gynnig gennym ni, mae croeso i chi wneud cais arall ar gyfer y cwrs Ffarmacoleg Feddygol yn ystod y cyfnod clirio. Cofiwch y gallwch chi ein ffonio ni i gael cyngor ar ddiwrnod eich canlyniadau Safon Uwch hefyd.

4.

Medi

- Croeso i Brifysgol Caerdydd!

5.

A wyddoch chi?

Byddwn ni'n ystyried eich graddau darogan hefyd.

A wyddoch chi?

Os byddwch chi'n gwneud cais i astudio gyda ni, ond ddim yn cael cynnig, rhwch gynnig arall arni y flwyddyn nesaf: mae rhai o'n myfyrwyr gorau yn dweud wrthym ni bod blwyddyn i ffwrdd wedi gwneud byd o wahaniaeth o ran cryfhau eu cais.

A wyddoch chi?

Gall y radd hon fod yn llwybr diddorol i mewn i feddygaeth. Gall myfyrwyr sydd â graddau da wneud cais i'n rhaglen Meddygaeth pedair blynedd o hyd (UCAS A101) yn eu blwyddyn olaf o'n BSc Ffarmacoleg Feddygol.

A wyddoch chi?

Ein dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r dydd Mercher olaf yn Ionawr, bob amser, ond mae croeso i chi gwneud cais yn gynharach.


Efallai na fydden ni'n ystyried ceisiadau newydd a wneir ar ôl dyddiad cau UCAS.

Eisiau gwybod mwy?



esle Nodiadan

Handwriting practice lines with medical-themed illustrations (band-aids, pills, syringes, stethoscopes, etc.) scattered around the page.



esg Nodiadau

Pop Lwc

www.caerdydd.ac.uk/meddygaeth

see